# Cynllun Blynyddol 2014/15

## Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 26 Medi 2013 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: | 24 Hydref 2013 |

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ein Cynllun Blynyddol a'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau | 1 |
| 2 | Dyletswyddau a strategaeth Ofcom | 2 |
| 3 | Blaenoriaethau Ofcom ar gyfer 2013/14 | 7 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 10 |
| 2 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 12 |
| 3 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 14 |

## Adran 1

# Ein Cynllun Blynyddol a'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebiadau llinell sefydlog, gwasanaethau symudol, y gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau cyfathrebu di-wifr yn eu defnyddio ac y darlledir gwasanaethau teledu/radio arnynt.

1.2 Mae Cynllun Blynyddol Ofcom yn cynnwys ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym nawr yn dechrau gweithio ar ein Cynllun ar gyfer y deuddeng mis o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015. Mae'r Cynllun Blynyddol yn chwarae rhan bwysig drwy ddarparu eglurder i'n rhanddeiliaid ynglŷn â'r flwyddyn i ddod.

1.3 Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013/14, bu inni nodi y byddem yn gwahodd rhanddeiliaid i ddynodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod cyn dechrau rhoi'r ddogfen Ddrafft at ei gilydd. Dyma'r tro cyntaf inni ofyn am fewnbwn ar y cam hwn. Wrth wneud hyn, rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu adlewyrchu barn rhanddeiliaid yn well yn ein Cynllun Blynyddol Drafft.

1.4 Yn benodol, hoffem gael sylwadau cynnar ar y canlynol:

- newidiadau posibl i ddulliau gweithredu a dibenion cyffredinol Ofcom a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y llynedd[1];
- y materion a'r meysydd y dylai Ofcom roi blaenoriaeth iddynt neu y dylai roi sylw iddynt fel meysydd gwaith mawr yn 2014/15; ac
- unrhyw feysydd penodol i'w dadreoleiddio neu eu symleiddio.

1.5 Rydym yn annog y rheini sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i ymateb i'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau erbyn 24 Hydref 2013. Bydd y sylwadau yn gweithredu fel sail ar gyfer ein hymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Drafft a fydd yn ceisio barn am gynigion penodol ynghylch blaenoriaethau, meysydd gwaith mawr a gwaith rhaglenni yn 2014/15. Byddwn yn cyhoeddi'r rhain ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2013.

1.6 Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad ar y Cynllun Blynyddol terfynol ym mis Mawrth 2014.

[1] http://www.ofcom.org.uk/files/2013/03/annplan1314.pdf

## Adran 2

# Dyletswyddau a strategaeth Ofcom

2.1 Prif ddyletswyddau Ofcom, fel y'u nodwyd yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.

2.2 Mae swyddogaeth Ofcom yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;
- sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu electronig ar gael ym mhob rhan o'r DU;
- sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau teledu a radio o safon uchel sydd ag apêl eang ar gael yn y DU;
- sicrhau bod digonedd o ddarparwyr gwasanaethau radio a theledu gwahanol ar gael;
- sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd ac eraill yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag deunydd tramgwyddus neu niweidiol; a
- sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd ac eraill yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag triniaeth annheg mewn rhaglenni neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

2.3 O ran y post, mae'n ddyletswydd arnom (fel y nodwyd yn adran 29 Deddf Gwasanaethau Post 2011) i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth post cyffredinol. Wrth gyflawni ein swyddogaethau ym maes gwasanaethau post, rhaid inni roi blaenoriaeth i'r ddyletswydd hon os yw'n ymddangos i ni ei bod yn gwrthdaro â'n prif ddyletswyddau.

## Strategaeth Ofcom

2.4 Fel rhan o broses Cynllun Blynyddol 2013/14, lluniodd a chyhoeddodd Ofcom ei strategaeth gyffredinol, ei ddibenion strategol a'i ddull gweithredu strategol. Rydym yn cynnwys hyn er mwyn rhoi cyd-destun i Ofcom a sut rydym yn mynd ati i gyflawni ein nodau.

2.5 Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Blynyddol Drafft y llynedd, croesawyd yr esboniad o strategaeth gyffredinol Ofcom. Dywedodd ymatebwyr ei bod yn rhoi pwrpas a chanolbwynt clir ac yn helpu i egluro'r meysydd penodol y byddai rhaglen waith 2013/14 yn canolbwyntio arnynt.

### Ein strategaeth gyffredinol yw sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebu'r DU yn gweithio i gefnogi buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

2.6 Prif ddyletswyddau Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. O ran y post, ein prif


ddyletswydd yw sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth post cyffredinol. Wrth gyflawni ein swyddogaethau ym maes gwasanaethau post, rhaid inni roi blaenoriaeth i'r ddyletswydd hon os yw'n ymddangos i ni ei bod yn gwrthdaro â'n prif ddyletswyddau.

**Strategaeth Ofcom**

Byddwn yn gweithio dros ddefnyddwyr a dinasyddion drwy hybu cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth a'r cyfle i gyfranogi mewn amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys y post. Byddwn yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau bosib o sbectrwm, drwy fecanweithiau marchnad lle bo modd a drwy gymryd camau rheoleiddiol lle bo angen. Byddwn yn rhoi gwarchodaeth gymesur i ddefnyddwyr ac yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd yn y cynnwys darlledu. Byddwn yn cyfrannu at bolisïau cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel a lluosogrwydd o ran perchnogaeth yn y cyfryngau.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, byddwn yn gorff ymgynghorol, tryloyw a chymesur. Caiff ein gwaith ei lywio gan wybodaeth ac ymchwil o ansawdd uchel, a byddwn yn rhannu hyn yn eang. Byddwn yn cadw amrywiaeth y DU a'i chenhedloedd mewn cof. Byddwn yn anelu at fod yn flaengar, yn ymatebol ac yn effeithiol ym mhopeth a wnawn.

### Ffigur 1: Strategaeth Ofcom




2.7 Mae **cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth** ar draws ein holl wasanaethau cyfathrebu yn elfen allweddol o'n strategaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar yr ochr gyflenwi ac ar yr ochr galw fel ei gilydd er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr. O dan y diben hwn, bydd ein gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- polisi cystadlu ar gyfer yr ochr gyflenwi yng nghyswllt gwasanaethau lle y ceir, neu lle y gellid cael, tagfeydd economaidd parhaus, gan gynnwys mynediad sefydlog preswyl, telegyfathrebiadau busnes, dulliau cyfathrebu symudol, darlledu a'r post; a

- gweithgareddau ar yr ochr galw i rymuso defnyddwyr drwy ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol a fydd yn hwyluso dewis effeithiol ar ran defnyddwyr ac i sicrhau ei bod yn hawdd symud rhwng gwasanaethau.

2.8 **Sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm** – mae hon yn elfen hanfodol o’n strategaeth ac yn un o’n meysydd gwaith mwyaf. Y dull gweithredu sydd orau gennym yw defnyddio mecanweithiau marchnad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, rydym yn cydnabod efallai y bydd angen cymryd camau rheoleiddiol. Gall ein penderfyniadau ynghylch sbectrwm hefyd ategu ein dyletswyddau ehangach, gan gynnwys ein targedau o ran cystadleuaeth effeithiol, dewis ar sail gwybodaeth a gwasanaethau a rhwydweithiau sydd ar gael yn eang.

2.9 Byddwn yn parhau i **hyrwyddo'r cyfle i gymryd rhan** yn y gymdeithas yng nghyswllt defnyddwyr a dinasyddion drwy sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio. Mae angen i ddefnyddwyr a dinasyddion ledled y DU allu ymwneud â gwasanaethau cyfathrebu a chael budd ohonynt. Dyma rai enghreifftiau penodol o’r gwaith rydym wedi’i wneud yn y cyswllt hwn:

- gwasanaethau a rhwydweithiau sydd ar gael yn eang;

- cymorth uniongyrchol i’r rhai mwyaf bregus yn ein plith;

- darparu gwasanaethau cyffredinol mewn modd effeithiol ac effeithlon;

- gweithgareddau dethol er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth defnyddwyr o wasanaethau a dewisiadau sydd ar gael o ran cyfrannu, yn enwedig yng nghyswllt grwpiau bregus; a

- darparu gwybodaeth a thystiolaeth i helpu gyda’r gwaith o ddatblygu polisïau cyhoeddus ehangach ar faterion megis cynhwysiant a llythrennedd yn y cyfryngau.

2.10 **Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed** – er bod marchnadoedd effeithiol yn darparu nifer o ganlyniadau da i ddefnyddwyr, rhaid wrth fesurau diogelu ychwanegol o hyd mewn marchnad sy’n fwyfwy cystadleuol a rhydd gyda rhwystrau isel o ran cael mynediad iddi a’i gadael. Rydym yn penderfynu ar ein blaenoriaethau yn y maes hwn ar sail blaenoriaeth weinyddol, gan ddefnyddio ffactorau megis maint neu natur y niwed a'n gallu i fynd i'r afael â'r mater. Ymysg yr enghreifftiau o broblemau, gellid cynnwys ffioedd am derfynu contractau band eang a llais sefydlog yn gynnar, cam-werthu gwasanaethau llinell sefydlog a galwadau mud.

2.11 **Sicrhau y cynhelir hyder y gynulleidfa yn y cynnwys darlledu** – mae defnyddwyr yn disgwyl rhywfaint o ddiogelu o hyd o ran safonau yng nghyswllt cynnwys darlledu. Mae hyn yn ymwneud â nifer o weithgareddau penodol, gan gynnwys:

- trwyddedu a gorfodaeth; a

- sicrwydd ansawdd effeithiol a safonau uchel parhaus mewn amgylchedd IP sy’n mynd yn fwyfwy byd-eang.

2.12 **Cyfrannu at bolisïau cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd** – yn aml, darperir ar gyfer buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy’n ymwneud â chyfathrebu drwy bolisïau cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd. Mae gennym rôl i’w chwarae o ran datblygu hyn drwy roi polisïau cyhoeddus ar waith a fydd yn sicrhau canlyniadau i


ddinasyddion, megis darlledu gwasanaeth cyhoeddus a lluosogrwydd o ran perchnogaeth yn y cyfryngau, a gorfodi'r polisïau hynny.  Yn ein gweithgareddau, rydym yn canolbwyntio ar faterion sy'n rhan o'n dyletswyddau ac a allai wneud gwahaniaeth i ddinasyddion. Mae'r swyddogaeth hon yn ategu llawer o'r rhai a grybwyllwyd uchod, gyda materion perthnasol i ddinasyddion yn thema sy'n cyffwrdd â holl weithgareddau Ofcom.

## Adran 4

# Blaenoriaethau Ofcom ar gyfer 2013/14

3.1 Er mwyn rhoi cyd-destun i raglen waith bresennol Ofcom, rydym wedi dangos y blaenoriaethau a fabwysiadwyd gennym ar gyfer y flwyddyn 2013/14 sy'n parhau tan ddiwedd Mawrth 2014.

### Ffigur 2: Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2013/14




3.2 Ers cyhoeddi'r cynllun blynyddol, mae meysydd gwaith ychwanegol sydd â blaenoriaeth uchel wedi codi:

- y cyhoeddiad mai Ofcom fydd yn gyfrifol am ryddhau 190 MHz o sbectrwm radio a arferai gael ei ddefnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at ddibenion milwrol;
- cwyn BT yn honni achos o gamddefnyddio safle goruchafol yng nghyswllt cyflenwi Sky Sports 1 a 2 cyfanwerthol;
- yn dilyn cam cyntaf y broses trwyddedau teledu lleol lle dyfarnwyd 19 trwydded rydym wedi cychwyn ail gam i ddyfarnu trwyddedau mewn 23 lleoliad arall;
- cyn hir byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ein strategaeth rheoli sbectrwm a fydd yn trafod y dull gweithredu y byddwn yn ei fabwysiadu yng nghyswllt rheoli sbectrwm a'n tybiaethau cychwynnol o ran blaenoriaethau posibl dros y deng mlynedd nesaf; a

- cwyn gan TalkTalk Telecom Group plc yn erbyn BT Group plc yn honni bod BT yn cyfyngu ar faint yr elw y gellir ei wneud yng nghyswllt prisio band eang cyflym iawn.

O ran ein gwaith yng nghyswllt adolygiadau o'r farchnad:

- rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch casgliadau cychwynnol ein hadolygiad o farchnadoedd mynediad sefydlog, gan gynnwys mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad llinell llais ac ISDN. Dylai hyn gael ei gwblhau yn 2013/14;
- rydym yn cynnal adolygiad o'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol. Dylem fod wedi cwblhau hyn erbyn diwedd 2013/14;
- rydym yn cynnal adolygiad o'r farchnad band cul a fydd yn dod i ben yn 2013/14;
- byddwn yn dechrau cynnal adolygiad o gyfraddau terfynu gwasanaethau symudol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2014/15; a
- byddwn yn dechrau cynnal adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes a fydd yn para gydol 2014/15.

3.3 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn ymgymryd ag ystod o waith arall yn y flwyddyn gyfredol. Mae manylion ynglŷn â hyn ar gael yng Nghynllun Blynyddol[2] 2013/14

[2] http://www.ofcom.org.uk/files/2013/03/annplan1314.pdf

Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am farn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm ar 24 Hydref 2013**.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/annual-plan-14-15-itc, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein cynorthwyo drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yn achos ymatebion mwy i'r ymgynghoriad - yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill i'w hategu - dylech eu hanfon ar ffurf e-bost at annualplan@ofcom.org.uk gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb yr ymgynghoriad.

A1.4 Fel arall, gellir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod, ac enw'r ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

Puja Kalaria
Strategy Team
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 79813716

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn egluro yn eich ymateb beth yw eich rhesymau dros eich barn a sut y bydd gwaith Ofcom yn effeithio arnoch chi.

## Cyfrinachedd

A1.7 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater dan sylw yn cael gweld y farn a fynegwyd gan y rheini sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef **www.ofcom.org.uk**, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, a fyddech cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n gyfrinachol, a nodi pam. A fyddech cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.8 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.9 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Camau nesaf

A1.10 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar y Cynllun Blynyddol Drafft ym mis Rhagfyr 2013.

A1.11 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion ar gael yn:http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.12 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriadau.

A1.13 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.14 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Graham Howell, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Graham Howell
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost Graham.Howell@ofcom.org.uk

## Atodiad 2

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A2.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk

A2.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A2.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A2.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we, sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/

A2.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a nodwch eich rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd yn rhaid i ni olygu'ch ymateb.

**Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom**

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd ☐ Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Yr ymateb cyfan ☐ Corff ☐

Rhan o'r ymateb ☐ Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 3

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

## Is-bennawd

A3.1 Yn y gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau, rydym wedi pennu'r cwestiynau allweddol isod yr hoffem i chi eu hystyried:

*Cwestiynau:*
*A oes angen newid rhai elfennau o ddulliau gweithredu a dibenion strategol cyffredinol Ofcom a nodwyd yn y cynllun blynyddol ar gyfer y llynedd?*

*Pa faterion a meysydd ddylai Ofcom roi blaenoriaeth iddynt neu y dylai Ofcom eu hystyried yn brif feysydd gwaith yn 2014/15?*

*A oes unrhyw feysydd penodol a ddylai gael eu dadreoleiddio neu eu symleiddio yn y flwyddyn i ddod?*